# Y Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus

# SPP(2)-02-04 (p.2)

Dyddiad: Dydd Iau 23 Medi 2004

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl: Diffinio Man Cyhoeddus

## Diben

Cytuno ar ddiffiniad at ddibenion gwaith y Pwyllgor.

**Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau** **Medi 2004**

### Diffinio 'mannau cyhoeddus'

Crynodeb

Diben y papur hwn yw rhoi gwybodaeth i helpu'r Pwyllgor i ddiffinio'r termau "man cyhoeddus" (public place) a "man cyhoeddus caeëdig" (enclosed public place). Mae'r papur felly'n cyflwyno'r diffiniadau a ddefnyddir gan amrywiaeth o weinyddiaethau i ddiffinio'r termau hyn ac yn nodi'r ddeddfwriaeth wreiddiol neu'r ddogfen bolisi berthnasol.

Dyma'r gweinyddiaethau a ddewiswyd fel enghreifftiau:

- Gweriniaeth Iwerddon a Dinas Efrog Newydd yn yr Unod Daleithiau, lle mae ysmygu eisoes wedi'i wahardd mewn mannau cyhoeddus.

- Yr Alban, lle mae Gweithrediaeth yr Alban ar hyn o bryd yn ystyried cyflwyno gwaharddiad.
- Ty^'r Arglwyddi, lle cyflwynodd yr Arglwydd Faulkner y Mesur Ysmygu Tybaco (Mannau Cyhoeddus a Gweithleoedd) (TA) ar 10 Mawrth 2004.
- Cynulliad Llundain, lle lluniodd Pwyllgor Ymchwil Cynulliad Llundain ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus adroddiad craffu yn 2002 .
- Cyngor Ewrop, lle cafwyd diffiniadau yn sgil Penderfyniad y Cyngor 1989 i annog Aelod Wladwriaethau i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus.

Mae'r wybodaeth wedi'i chyflwyno ar ffurf tabl. Wrth ochr pob diffiniad mae disgrifiad o'r ddeddfwriaeth neu'r ddogfen bolisi y mae'r diffiniad yn deillio ohoni, a chyswllt â'r we lle bo'n bosibl. Ceir sylwadau cryno hefyd.

Ymysg rhai o'r pwyntiau allweddol i'w nodi mae'r ffaith fod rhai deddfwriaethau a dogfennau polisi, ond nid pob un, yn cynnwys y canlynol:

- Disgrifiadau o "fannau cyhoeddus", "mannau cyhoeddus caeëdig" neu'r ddau.
- Disgrifiadau o "fannau cyhoeddus caeëdig" sydd wedi'u heithrio.
- Diffiniadau o fannau a neilltuwyd ar gyfer ysmygu.
- Darpariaeth ar gyfer "mannau rhannol gaeëdig" (semi-enclosed area), fel arenâu chwaraeon neu fannau sydd gyferbyn â mannau caeëdig, fel cynteddau neu lobïau.
- Rhestrau, nad ydynt yn rhestrau cyflawn, o fannau penodol a disgrifiadau ohonynt.

Ffynonellau: Llywodraeth Gweriniaeth Iwerddon
Gweithrediaeth yr Alban
Cynulliad Llundain
Yr Undeb Ewropeaidd
Dinas Efrog Newydd, UDA
Senedd y DU

| Gweinyddiaeth | Statws, ee deddfwriaeth neu ddogfen bolisi | Diffiniad | Sylwadau | Cyswllt |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweriniaeth Iwerddon | Tobacco (Health Promotion and Protection) Act, 1988. | Mae'r Ddeddf yn diffinio "designated area" a "designated facility" yn hytrach na "public space (or place)".<br><br>Diffinnir "designated area" fel: "a place or building specified in regulations made under section 2 of this Act as being an area in which the consumption of tobacco products is either prohibited or restricted".<br><br>Mae "designated facility" yn golygu awyren, trên, cerbyd gwasanaeth cyhoeddus neu gyfleuster arall sy'n cael ei ddefnyddio<br><br>gan y cyhoedd ac y cyfeirir ato mewn rheoliadau o dan adran 2 fel cyfleuster<br><br>lle mae'r cyhoedd wedi'u gwahardd neu eu cyfyngu rhag defnyddio cynhyrchion tybaco ynddo neu arno.<br><br>Mae'r Ddeddf yn nodi pum categori o "designated areas" neu gyfleusterau lle gellir gwahardd neu gyfyngu pobl rhag ysmygu, er bod pob un o'r rhain yn cael eu lleddfu gan "as may be specified". Dyma'r categorïau:<br><br>• awyrennau, trenau, cerbydau gwasanaethau cyhoeddus neu | Mae gan Weriniaeth Iwerddon dair Deddf sydd gydag adrannau ar wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus, a phob un yn ychwanegu darpariaethau at y ddeddfwriaeth gyfredol.<br><br>Cyflwynwyd gwaharddiadau ar ysmygu hefyd ym 1995 gan gynnwys sinemâu, theatrau, neuaddau bingo a siopau trin gwallt.<br><br>Ymysg yr eithriadau mae:<br><br>Carchardai a chanolfannau cadw,<br><br>ysbytai seiciatreg, cartrefi nyrsio, cartrefi mamolaeth, rhai sefydliadau elusennol, ystafelloedd gwely mewn gwestai, llety gwely a brecwast a chyfleusterau preswyl addysg trydedd lefel.<br><br>Mae'r gwaharddiad ar ysmygu'n berthnasol i weithleoedd caeëdig. Caiff mannau ysmygu awyr agored eu darparu yn ôl disgresiwn y cyflogwr, yn amodol ar ofynion deddfwriaethol. | click here |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | gyfleusterau eraill<br>• adeiladau gofal iechyd<br>• ysgolion<br>• adeiladau'r Wladwriaeth<br>• sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd neu fannau eraill tebyg ar gyfer adloniant cyhoeddus dan do. | | |
| | Public Health (Tobacco) Act, 2002, S.3.47 | Ceir diffiniad mwy cynhwysol yn y Ddeddf hon:<br><br>"All or part of a building to which the public has access, either as of right or with the permission of the owner or occupier of the building…." | | click here |
| | Public Health (Tobacco) (Amendment) Act 2004. | Caiff y diffiniad o "public service vehicle" ei ddiwygio i olygu: "mechanically propelled vehicle used for the carriage of persons for reward and having seating accommodation for more than 8 persons exclusive of the driver.'' | | click here |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Yr Alban<br><br>Gweithrediaeth yr Alban | Dogfen ymgynghori (daw'r ymgynghoriad i ben 30 Medi 2004) | Caiff man cyhoeddus ei ddiffinio fel hyn:<br><br>"Any enclosed or semi-enclosed area that members of the public have access to that provides a business or service." Mae hyn yn cynnwys gweithleoedd, adeiladau a thrafnidiaeth.<br><br>Dyma'r diffiniad o "enclosed public space":<br><br>"A single space completely enclosed on all sides of any opening." | Nid oes diffiniad o'r hyn a elwir yn "semi-enclosed area". | click here |
| Ty'r Arglwyddi | Cyflwynwyd y Mesur Ysmygu Tybaco (Mannau Cyhoeddus a Gweithleoedd) (TA)<br><br>fel Mesur Aelodau Preifat gan yr Arglwydd Faulkner o Gaerwrangon ar 10 Mawrth 2004, a chafwyd yr ail ddarlleniad ar 23 Ebrill 3004, cyn ei drosglwyddo i Bwyllgor yr Holl Dy^ | Mae "public places" yn golygu "enclosed public places".<br><br>Diffinnir chwe math o fan cyhoeddus yn Rhan 1 o'r Atodlen:<br><br>• Safleoedd busnes a ddefnyddir at ddibenion masnach, busnes neu broffesiwn neu unrhyw ran sy'n agored i'r cyhoedd.<br>• Adeiladau swyddogol a ddefnyddir gan unrhyw un o adrannau'r Llywodraeth, awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall sy'n agored i'r cyhoedd.<br>• Mannau adloniant cyhoeddus, ee theatrau, sinemâu a mannau a | Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn diffinio pum math o le sydd wedi'u heithrio:<br><br>• Siopau sy'n gwerthu tybaco a chynhyrchion ysmygu.<br>• Ystafelloedd ysmygu mewn gwestai, tafarndai etc.<br>• Rhannau o adeiladau a ddefnyddir at ddibenion meddygol neu ofal preswyl, a gaiff eu defnyddio'n bennaf fel neuaddau preswyl ac sy'n fannau caeëdig ar wahân i rannau o'r safle a rennir a mannau sy'n agored i'r cyhoedd. | click here |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddefnyddir at ddibenion adloniant, arddangosfeydd neu chwaraeon.<br>• Safleoedd cludiant a thrafnidiaeth gyhoeddus ee trenau ac awyrennau, cerbydau gwasanaethau cyhoeddus, tramiau, bysiau troli, tacsis, gorsafoedd trenau a bysiau a safleoedd eraill ar gyfer trafnidiaeth.<br>• Safleoedd addysgol ee ystafelloedd dosbarth, neuaddau darlithio a mathau eraill o sefydliadau addysgol.<br><br>• Safleoedd gofal iechyd ee ysbytai, clinigau a safleoedd eraill a ddefnyddir at ddibenion meddygol, deintyddol neu ofal preswyl, ar wahân i'r eithriadau.<br><br>Mae Cymal 3 yn y Mesur yn darparu ar gyfer dynodi mannau lle caniateir i bobl ysmygu. | • Carchardai a chanolfannau cadw.<br><br>• Mae gweithleoedd sy'n safleoedd domestig, a rhannau o weithleoedd a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion domestig, yn fannau caeëdig ar wahân i'r rhannau o'r safle a rennir, ac nid ydynt yn agored i'r cyhoedd. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cynulliad Llundain | Adroddiad craffu Pwyllgor Ymchwil Cynulliad Llundain ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus, Mawrth 2002<br><br>. | Mae Adran 5 yn yr adroddiad yn cyfeirio at wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus dan do, a ddiffiniwyd yn y dystiolaeth fel "places where people gather for leisure and social activities, although many of them are also places of work". Mae hyn yn cynnwys casinos, sinemâu, neuaddau cyngerdd, canolfannau cynadledda, bwytai, tafarndai, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, gorsafoedd, clybiau chwaraeon a theatrau. Cafwyd cadarnhad bod "public places" yn sôn am fannau awyr agored yn hytrach na dan do. | Ymysg argymhellion yr adroddiad mae:<br><br>• Sefydlu polisi unedig ar ysmygu ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol.<br>• Newid y ddeddf i roi'r gallu i yrwyr tacsi wahardd pobl rhag ysmygu yn eu cerbydau. | click here |
| UDA -<br><br>Efrog Newydd | Cyfraith Leol, yn diwygio cod gweinyddol dinas Efrog Newydd mewn perthynas â'r gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd, City of New York Int. No. 0256-A (a 2nd amendment to the Smoke Free Air Act 1995). Roedd No. 0172 yn cyflwyno gwaharddiad mewn bwytai. | Caiff man cyhoeddus ei ddiffinio fel hyn:<br><br>"Any area to which the public (individuals other than employees) are invited or permitted, including, but not limited to:<br><br>Banks, educational facilities, health care facilities, child day care centres, children's institutions, shopping malls, property owned, occupied or operated by the city of New York or an agency thereof, public transportation facilities, reception areas, restaurants, catering halls, retail | Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn disgrifio adeiladau penodol neu rannau o adeiladau, ee theatrau, bwytai, bariau, siopau, cyfleusterau gofal iechyd preswyl, sinemâu ac awditoria. Caiff awditoriwm ei ddiffinio fel man lle ceir seddi gyda choridorau, cynteddau a lobïau gyferbyn â'r seddi. Mae ystafelloedd ysmygu a mannau agored mewn arenâu chwaraeon yn cael eu diffinio hefyd. | click here |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | stores, theatres, sports arenas and recreational areas and waiting rooms."<br><br>Yn ogystal, caiff preswylfa breifat ei chynnwys fel man cyhoeddus:<br><br>"Where a child day care centre or health care facility is operated during the times of operation and areas in a private residence, or<br><br>"Which constitute common areas of a multiple dwelling containing ten or more dwelling units".<br><br>Ceir diffiniad o "enclosed" yn y disgrifiad o ystafell ysmygu:<br><br>"Completely enclosed on all sides by solid floor-to-ceiling walls". | | |
| Cyngor Ewrop | Penderfyniad 41989X0726, 26 Gorffennaf 1989 | "Enclosed premises open to the public which form part of the public or private establishments. | Gwahoddwyd Aelod Wladwriaethau hefyd i ymuno â'r rhestr o wledydd sydd wedi gwahardd ysmygu ar drafnidiaeth gyhoeddus a diffinio'r mannau a gedwir i ysmygwyr.<br><br>Mae'r cyswllt hefyd yn rhoi manylion sylwadau dilynol y | click here |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cyngor. Ni chyhoeddwyd cofnodion y cyfarfod olaf ym 1996. | |

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**